# PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 25 Mawrth 2015 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Stuart Davies, Peter Duffy, Martyn Holland (Is-Gadeirydd), Gwyneth Kensler a/ac Jason McLellan (Cadeirydd) a Mr P. Whitham (Aelod Lleyg).

Y Cynghorwyr M.Ll. Davies, H.Ll. Jones, R.M. Murray a J. Thompson-Hill fel arsyllwyr.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd ac Adnoddau Dynol (GW), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden (JG), Prif Gyfrifydd (RW), Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol (CB ), Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru (AV, GB a GE) a Gweinyddwr y Pwyllgor (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr)

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 4 COFNODION

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2015.

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

## 5 PROSES GYLLIDEB 2016/17

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau, a oedd yn rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16 a 2016/17, wedi ei ddosbarthu eisoes.

Eglurodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill fod y Gyllideb ar gyfer 2015/16 wedi cael ei chymeradwyo gan y Cyngor a bod y Gweithdai Cyllideb yn canolbwyntio ar

gynigion cynilo ar gyfer 2016/17 wedi cychwyn, a bod manylion am yr amserlenni arfaethedig wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Roedd y bwlch a ragwelwyd yn y gyllideb ar gyfer 2016/17 tua £8.8m. Roedd arbedion o £2.7miliwn wedi eu cymeradwyo fel rhan o'r broses bresennol a oedd yn golygu bod y bwlch sy'n weddill tua £6.1miliwn.

Roedd siart yn dangos y broses gyllideb arfaethedig wedi ei gynnwys fel Atodiad 1. Roedd yn amlinellu'r broses i sicrhau arbedion 2016/17 a symud ymlaen â'r broses a oedd wedi cychwyn ym mis Mawrth 2014. Y 'camau' arbed oedd y pwyntiau penderfyniad a gymerwyd i'r Cyngor i'w cymeradwyo. Gan fod Camau 1 i 3 wedi eu cymeradwyo roedd y siart yn cychwyn ar Gam 4.

Darparwyd manylion y broses ymgynghori sylweddol a wnaed i sicrhau cyllidebau 2015/16 a 2016/17. Roedd y broses gyllideb wedi bod yn hynod o heriol ac roedd ymgysylltiad a chefnogaeth yr Aelodau yn y broses o wneud penderfyniadau ac archwilio’r broses wedi bod yn allweddol. Roedd y fframwaith rheoli risg a gynigwyd i reoli gweithredu arbedion cyllideb 2015/16 wedi’i chynnwys yn yr adroddiad. Pwysleisiwyd mai hwn oedd y cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r Cyngor wedi ei wynebu a byddai methu a chyflawni strategaeth gyllideb effeithiol yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y dyfodol.

Byddai rheoli risg o'r broses yn ystyriaeth allweddol i’r Pwyllgor ac roedd y risgiau posibl o amgylch gweithredu pob cynnig arbed wedi'i gyflwyno mewn gweithdai wrth iddynt ddatblygu. Roedd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi canolbwyntio ar reoli risg y broses a chynigiwyd y dylid cael pedair elfen i'r fframwaith rheoli risg sy'n sail i arbedion cyllideb 2015/16, ac roedd y rhain wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd S.A. Davies ynghylch y manteision o ddarparu manylion llinellau gwariant ar gyfer gwasanaethau unigol, cadarnhaodd y Prif Gyfrifydd y gellid darparu crynodeb o gyllideb y gwasanaeth, a’r ffigurau diweddaraf a gyflwynwyd ar gyfer 2015/16. Ymatebodd y Prif Gyfrifydd i gais gan y Cadeirydd a chytunodd ddarparu copïau caled o'r wybodaeth, gan gynnwys taenlenni.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y materion a godwyd gan Mr P. Whitham yn y cyfarfod blaenorol o ran yr agenda risg mewn perthynas â risgiau ariannol, enw da a pherfformiad. Cadarnhaodd fod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi ystyried y materion a godwyd, ond roedd yn teimlo fod diffyg cyfeiriad yn yr adroddiad at ganlyniad y trafodaethau. Mewn ymateb i gais gan y Cadeirydd, cytunwyd y byddai adroddiad manwl pellach yn cael ei gyflwyno i'r Gweithdy Cyllideb ym mis Mehefin, 2015 i'w ystyried gan yr Aelodau.

Esboniodd Mr P. Whitham fod y pryderon yr oedd wedi eu mynegi yn ymwneud â'r risgiau cysylltiedig ar gyfer y broses gyllideb ar gyfer 2016/17, a theimlai bod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ymddangos i fod yn canolbwyntio ar y gwaith o fonitro'r broses ar gyfer 2015/16. Roedd yn falch fod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi ystyried yr agwedd agenda risg ond mynegodd siom nad oedd materion yn ymwneud â'r methiant i wneud penderfyniadau yn gynnar, ac arbedion staff yn cael eu hymhlygu gan gostau pensiwn, wedi cael eu hystyried. Amlinellodd y Prif

Gyfrifydd y broses a oedd yn cynnwys monitro effaith cynigion 2015/16, ac amlinellodd y broses ar gyfer ystyried cynigion 2016/17.

Mewn ymateb i’r pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd M.Ll. Davies, cytunwyd bod y mater o golli aelodau staff sy'n siarad Cymraeg yn cael ei amlygu fel risg. Cyfeiriodd y Cadeirydd at Dyletswydd Statudol Cyngor mewn perthynas â deddfwriaeth yr iaith Gymraeg.

Yn dilyn trafodaeth bellach, ac yn amodol ar y materion a godwyd: -

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad ar y datblygiadau diweddaraf.*
***(RW i weithredu)***

**6 DIWEDDARIAD STRATEGAETH RHEOLI GWYBODAETH**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ar weithredu Strategaeth Rheoli Gwybodaeth y Cyngor, a gafodd ei ddosbarthu eisoes.

Eglurodd y Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol bod Tîm Gwybodaeth Corfforaethol wedi cael ei ffurfio er mwyn darparu ymagwedd fwy cydlynol at y maes hwn ac i fynd i'r afael â'r gwendidau anodwyd yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol. Roedd Strategaeth Rheoli Gwybodaeth wedi cael ei datblygu i ddarparu dull corfforaethol y cytunwyd arno ar gyfer y swyddogaeth hon, ac o ganlyniad roedd gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud. Yn ddiweddar, roedd y gwelliannau wedi arwain at leihau’r risgiau cysylltiedig o oren, sylweddol, i felyn, cymedrol, ac adlewyrchwyd hyn yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Roedd rhai o'r camau gweithredu allweddol a wnaed dros y 12 mis diwethaf a oedd wedi helpu i leihau'r gyfradd risg wedi cael eu nodi yn yr adroddiad, cyfeiriwyd yn benodol at:-

- moderneiddio'r ffordd y mae llawer o dimau o bob rhan o'r Cyngor yn gweithio gyda dogfennau trwy gyflwyno EDRMS, a oedd yn cael ei ddefnyddio gan 20% o'r gweithlu.
- pwysigrwydd darparu hyfforddiant ar gyfer staff mewn perthynas â materion diogelu data.
- manylion ynglŷn â diwygio ac ail-lansio ein Atodlen Gadw Gorfforaethol.
- dwysedd llafur y broses sganio.

Eglurwyd, dros y 12 mis nesaf mae nifer o weithgareddau wedi’u cynllunio gan ganolbwyntio’n benodol ar ddatblygu swyddogaethau Rheoli Cofnodion ac Archifau’r Cyngor:

Darparodd y swyddogion yr ymatebion canlynol i faterion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Roedd y gwasanaeth Archifau yn wasanaeth rhad ac am ddim i unrhyw un sy'n dymuno cael mynediad i gofnodion hanesyddol. Codir ffioedd bach am bethau fel llungopïo, sganio ac ymchwil.
- Cadarnhaodd y Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol fod rhaglen gwaith i'r dyfodol wedi ei sefydlu a bod y gweithgareddau a gynlluniwyd yn cael eu hystyried yn gyraeddadwy.
- Roedd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi cytuno i ddarparu biniau gwastraff cyfrinachol â chlo.
- Roedd dull cydweithredol wedi cael ei fabwysiadu gydag Awdurdodau Lleol cyfagos, o ran gosod a datblygu systemau a chyfarpar TG newydd cydnaws, yng ngoleuni uno posibl yn y dyfodol. Cytunodd y Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol byddai adroddiad yn y dyfodol yn cynnwys manylion am y cynnydd a gyflawnwyd yn y maes hwn.
- Darparwyd manylion ynglŷn â'r Atodlen Gadw Gorfforaethol, mewn perthynas â dinistrio cofnodion.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'r cynnydd a wnaed ar reoli gwybodaeth ac yn parhau i gefnogi ei weithrediad.* **(CB i Weithredu)**

## 7 PAPUR GWYN – DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL, PŴER I BOBL LEOL

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd, ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru o’r enw Diwygio Llywodraeth Leol: Pŵer i Bobl Leol, ('y Papur'), a oedd wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd y Papur yn destun ymgynghoriad tan 28 mis Ebrill ac roedd yr adroddiad yn ceisio canfod barn y Pwyllgor ar y cynigion sydd yn y papur, yn enwedig yr elfennau hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â materion llywodraethu corfforaethol. Roedd crynodeb o’r Cynllun Corfforaethol wedi’i gynnwys fel Atodiad 1.

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yr adroddiad ac eglurodd bod y Papur helaeth yn cynnwys nifer o gynigion polisi clir, gan ailadrodd ymrwymiadau polisi blaenorol, megis uno, cysylltiadau â Bil Cenedlaethau'r Dyfodol ac ati, a nifer o gwestiynau penagored sy’n ceisio barn am opsiynau polisi. Roedd rhai o'r cynigion ac opsiynau polisi yn gymhleth ond yn cynnig manylion cyfyngedig o amgylch sut y byddai cynigion yn cael eu rhoi ar waith. Roedd naw prif bennod yn y Papur a oedd yn cynnwys arolwg ymgynghori, Atodiad 2. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried yn arbennig y Bennod o’r enw 'Llywodraethu a Gwella Corfforaethol' ynghyd â meysydd eraill yn y Papur a oedd yn effeithio ar faterion llywodraethu corfforaethol a oedd wedi eu nodi yn yr adroddiad.

Cafodd yr anawsterau a wynebwyd wrth ddarparu ymateb eu hamlinellu gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd. Esboniodd y bwriadwyd drafftio dogfen i ymateb i bob mater a godwyd yn yr arolwg tri deg tudalen ac i gynhyrchu dogfen glawr sy'n rhoi barn, os cytuna’r Aelodau, ar y themâu cadarnhaol yn y Papur Gwyn. Fodd bynnag, i fynegi'r farn bod y Papur

Gwyn yn canolbwyntio ar faterion allweddol ac amlygu barn Sir Ddinbych ar y materion hyn.

Darparodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd grynodeb manwl o'r adroddiad a oedd wedi canolbwyntio ar feysydd canlynol y Papur:-

Paragraff 2.12
Paragraff 2.10
Pennod 3, f, g
Paragraff 3.5
Pennod 4
Pennod 6
Paragraff 6.4
Pennod 7
Pennod 8
Pennod 9

Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y prif faterion i'w hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Cyfeiriodd at ddyheadau Llywodraeth Cymru i wella a chynyddu safonau Arweinyddiaeth o safbwynt llywodraethu corfforaethol ar lefel swyddogion a gwleidyddol, gyda'r newidiadau arfaethedig i broses benodi uwch swyddogion mewn Awdurdodau Lleol. Amlinellwyd y tri opsiwn a ystyriwyd i gyflawni'r amcanion gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd, a chyfeiriwyd yn arbennig at y posibilrwydd o gyflwyno Comisiwn Penodiadau Sector Cyhoeddus a sefydlu Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd at y manteision sydd i'w cyflawni drwy groesawu'r ffocws ar lywodraethu corfforaethol, arweinyddiaeth, perfformiad a gwella a thynnu sylw at feysydd sy'n cael eu hystyried fel arfer da. Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr angen i'r Pwyllgor ganolbwyntio a rhoi ffocws ar faterion llywodraethu wrth ystyried cynnwys yr ymateb.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd mynegodd yr Aelodau eu barn mewn perthynas â'r materion canlynol: -

- y manteision i'w cyflawni o rannu prosesau arfer gorau, fel sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn Sir Ddinbych.
- pwysigrwydd cyfansoddiad y Byrddau Ardal Lleol perthnasol sy'n cyfrannu at y broses.
- arwyddocâd cyfranogiad cymunedau lleol wrth wneud penderfyniadau ar lefel leol.
- rôl, cylch gwaith a dynodiad Cynghorau Cymuned yn y dyfodol.

Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd ei fod wedi dechrau drafftio ymateb naratif o Sir Ddinbych a oedd yn cynnwys ymatebion i bob un o'r blychau ticio, gan dynnu sylw at unrhyw faterion o bryder ac

amlinellu meysydd yr ystyrir i fod yn themâu mawr. Pwysleisiodd bwysigrwydd cyfranogiad Aelodau a chynnwys eu barn yn yr ymateb.

Cytunodd y Cadeirydd y dylai'r ymateb naratif gael ei fynegi mewn ffurf bositif, a mynegodd y farn bod llawer o'r arferion gorau eisoes wedi cael eu mabwysiadu a'u gwneud gan yr Awdurdod. Teimlwyd y dylai'r ymateb hefyd gynnwys y pryderon a fynegwyd mewn perthynas â manylion penodol megis aelodaeth y Byrddau Ardal Lleol a'r agweddau gweinyddol.

Ystyriodd yr Aelodau'r mater a oedd yn ymwneud â chyfansoddiad y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, a chyfeiriwyd yn arbennig at nifer yr Aelodau Annibynnol a'u penodiad. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd ei fod wedi dechrau drafftio ymateb mewn perthynas ag Aelodau Annibynnol a oedd yn cynnwys: -

- Byddai Aelodau Annibynnol yn dod â safbwynt ffres gyda her a barn wahanol i rai'r Aelodau Etholedig, ac roedd hyn wedi gweithio'n dda o ran Pwyllgor Archwilio Llywodraethu Corfforaethol Sir Ddinbych.
- Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi na awgrymwyd y dylid cael mwyafrif o Aelodau Annibynnol.
- Teimlwyd na ddylai cadeiryddion yn awtomatig fod yn Aelodau Annibynnol, ond ni ddylai hyn atal Aelod Annibynnol rhag bod yn gadeirydd, gyda'r Pwyllgor yn penodi'r cadeirydd.

Amlygodd Mr P. Whitham bwysigrwydd Aelodau Annibynnol i fod yn wybodus, deallus a gyda gwir ddiddordeb mewn gwasanaethu fel Aelodau ar Bwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol, a gofynnodd a fyddai cynyddu nifer yr Aelodau Annibynnol sy'n gwasanaethu ar Bwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *- yn amodol ar sylwadau'r Aelodau, bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-*

*(a) yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad, ac*
*(b) yn cytuno bod y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yn drafftio ymateb fel yr amlinellwyd yn ystod y drafodaeth.*
***(GW i Weithredu)***

## 8 CYNLLUN ARCHWILIO 2015 CYNGOR SIR DDINBYCH

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyflwynodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad 'Cynllun Archwilio 2015- Cyngor Sir Ddinbych', Atodiad 1, a gynhyrchwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Roedd yr adroddiad yn amlinellu rhaglen waith wedi'i threfnu ar gyfer rhaglen archwilio perfformiad ac archwilio ariannol Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn cynnwys materion megis y ffi ar gyfer y gwaith, manylion o ran y tîm

archwilio a'r amserlen ar gyfer y gwaith. Roedd yn ofynnol i'r archwilwyr allanol baratoi a chyflwyno'r adroddiad er mwyn cyflawni eu gofynion o dan safonau archwilio ac arferion archwilio priodol.

Roedd y meysydd o fewn yr adroddiad, Atodiad 1, a amlygwyd gan Gynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys: -

- Crynodeb o'r Adroddiad.
- Archwilio ariannol.
- Risgiau archwilio ariannol.
- Ardystio hawliadau a ffurflenni grant.
- Materion cyffredinol a nodwyd.
- Gwaith arall a wnaed.
- Archwilio perfformiad.
- Tîm Archwilio Ffioedd ac amserlen.
- Tîm Archwilio.
- Amserlen.

Darparodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru'r Cyngor gydag amlinelliad o'r rhaglen waith archwilio ariannol ac archwilio perfformiad.Roedd y rhaglen archwilio ariannol yn cwmpasu'r gwaith o ran datganiadau ariannol 2014-15, ac yn darparu gwybodaeth am y dull archwilio, gan gynnwys y risgiau archwilio allweddol sydd wedi'u nodi yn ystod y broses gynllunio cychwynnol a'r camau bwriedig i fynd i'r afael â nhw. Bydd y gwaith archwilio ariannol ar y meysydd risg hyn yn cael eu defnyddio i lywio barn archwilio ar y datganiadau ariannol.

Roedd y rhaglen waith archwilio perfformiad yn cynnwys eu gwaith o ran y Mesur Llywodraeth Leol. Roedd y gwaith archwilio ariannol a pherfformiad hefyd yn adolygu'r trefniadau a roddwyd ar waith gan y Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Eglurodd y Cynghorydd S.A. Davies ei fod yn croesawu'r archwiliad o'r Cydbwyllgor mewn perthynas â'r AHNE. Eglurodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru oherwydd ei faint byddai'r AHNE yn destun archwiliad sicrwydd cyfyngedig, fodd bynnag, cadarnhawyd y byddai'r adroddiad mewn perthynas â'r AHNE yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Ymatebodd Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru i gwestiwn gan Mr P. Whitham a manylwyd ar waith perfformiad yn archwiliad amlinellol y llynedd sy'n dal ar y gweill, Atodiad 2. Cytunodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y gellid dosbarthu llythyr a dderbyniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch y mater hwn i Aelodau'r Pwyllgor. Cyfeiriwyd at Atodiad 3 a oedd yn cyfeirio at astudiaethau gwerth am arian Cenedlaethol.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

***(GW i Weithredu)***

**9 CYNLLUN GWELLA LLYWODRAETHU A DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2014/15**

Oherwydd cyfyngiadau amser, cafodd yr eitem hon ei gohirio tan y cyfarfod nesaf.

**10 STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2015/16**

Oherwydd cyfyngiadau amser, cafodd yr eitem hon ei gohirio tan y cyfarfod nesaf.

**11 TALIAD ARIANNOL I'R RHAI SY'N GADAEL GOFAL - DIWEDDARIAD**

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda'r Cynllun Gweithredu a gynhwyswyd yn yr adroddiad Archwilio Mewnol ar Daliadau Ariannol i'r Rheiny sy'n Gadael Gofal a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014, wedi cael ei ddosbarthu eisoes.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio Mewnol bod y Pwyllgor wedi gofyn am adroddiad cynnydd ar ôl ystyried adroddiad dilynol ar 5 Tachwedd, 2014, a oedd yn dangos mai dim ond pum cam gweithredu oedd wedi cael ei gwblhau gyda thri arall yn mynd rhagddynt. Nid oedd chwech o'r camau gweithredu wedi cael sylw, gan gynnwys y prif fater a godwyd, Mater 1, a oedd yn gofyn am adolygiad llawn o'r broses ar gyfer gwneud taliadau i bobl sy'n gadael gofal.

Roedd y diweddariad mwyaf cyfredol wedi cael ei gynnwys fel Atodiad 1 i'r adroddiad. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y bu ychydig iawn o gynnydd ers y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr, 2014, pan oedd y Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau a'r Rheolwr Gwasanaeth: Plant sy'n Derbyn Gofal wedi annerch y Pwyllgor. Eglurodd bod y sefyllfa bellach wedi newid ac mae'r mater wedi dod yn fater Caffael Strategol

Mynegodd y Pwyllgor bryder eithafol ynghylch y diffyg cynnydd dros gyfnod hir o amser, ynghylch y mater pwysig iawn sy'n ymwneud â pholisïau sy'n effeithio ar oedolion ifanc diamddiffyn.

Cytunodd yr Aelodau dylid gofyn i'r Rheolwr Gwasanaeth: Plant sy'n Derbyn Gofal i gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor, yn manylu ar y rhesymau dros y diffyg cynnydd, a bod y Swyddog Caffael Strategol Dros Dro yn cael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod hefyd.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd gofynnodd y Pwyllgor am i'w rhwystredigaeth, o ran y diffyg cynnydd, gael ei gyfleu i'r swyddogion perthnasol.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn gofyn*

*(a) i'r Rheolwr Gwasanaeth: Plant sy'n Derbyn Gofal gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor, a*
*(b) gwahodd y Swyddog Caffael Strategol Dros Dro i fynychu'r cyfarfod.*
***(IB, RM a SA i Weithredu)***

**12 HAMDDEN CLWYD CYF – ADOLYGU'R GWERSI A DDYSGWYD**

Roedd copi o adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol wedi ei ddosbarthu eisoes.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol yr adroddiad a oedd yn adolygu'r amgylchiadau a arweiniodd at Hamdden Clwyd Cyf yn rhoi'r gorau i fasnachu yn 2014, a nodi'r gwersi a ddysgwyd er mwyn lleihau'r risg o amgylchiadau tebyg rhag digwydd yn y dyfodol.

Roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi adolygu'r trefniadau ar gyfer llywodraethu a monitro perfformiad sefydliadau hyd braich. Roedd yr adroddiad yn nodi'r canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion o'r adolygiad a gomisiynwyd gan y Cabinet, a osodwyd o fewn yr argymhellion a wnaed gan y Pennaeth Archwilio Mewnol er mwyn gwella llywodraethu cyffredinol o sefydliadau hyd braich. Roedd llinell amser o hanes Hamdden Clwyd Cyf wedi cael ei amlinellu yn yr adroddiad adolygu.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol ar y dechrau nid oedd y gwaith papur cyfreithiol yn sefydlu Hamdden Clwyd Cyf wedi trin sut i ddelio â sefyllfaoedd problemus, a bu absenoldeb clir o ddisgwyliadau perfformiad ac eglurder.

Roedd y penderfyniad gwreiddiol i sefydlu Hamdden Clwyd Cyf wedi cael ei seilio ar arfarniad o opsiynau yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau allweddol. Fodd bynnag, daeth yr adolygiad i'r casgliad na chafodd hyn ei ddilyn drwodd i'r ddogfennaeth ffurfiol yn sefydlu'r cwmni neu ei berthynas â'r Cyngor, ac roedd hyn wedi cyfrannu at wendidau yn y trefniadau monitro ac archwilio a’i gwneud yn anodd i'r Cyngor i reoli ei berthynas â'r Cwmni. Teimlwyd bod trefniadau archwilio a monitro wedi cael eu drysu a bod llwybrau adrodd lluosog yn debygol o fod wedi cyfrannu at ddiffyg dilyniant.

Amlinellodd y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden y rheswm pam fod y Cwmni wedi bod yn destun cymaint o archwilio sy'n gwrthdaro. Esboniodd fod y trefniadau hyd braich ac yn wir y gwasanaeth Hamdden yn ei gyfanrwydd wedi cael ei basio o gwmpas yr Awdurdod ar sawl achlysur yn ystod cyfnod amser y cwmni, a oedd wedi golygu sawl Pennaeth Gwasanaeth gwahanol â chyfrifoldeb drosto ac o ganlyniad yn gorfod adrodd i'r gwahanol Bwyllgorau Archwilio. Mynegodd y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden y farn fod y problemau wedi deillio o'r testun a’r cyfrifoldeb yn dilyn Penaethiaid a Chyfarwyddwyr yn adrodd i wahanol Bwyllgorau Archwilio. Teimlai y byddai'r trefniadau archwilio newydd yn sicrhau nad oedd hyn yn digwydd yn y dyfodol gan nad oeddent yn seiliedig ar gyfarwyddiaeth, a byddai rhaglenni yn cael eu monitro a'u trafod gan Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion.

Yn fwy diweddar o fewn y Cyngor mae dulliau mwy cadarn o ddatblygu achosion busnes a rheoli prosiectau a risg yn golygu ei bod yn annhebygol y byddai amgylchiadau tebyg yn codi rŵan. Mae rheoli risg wedi’i ymgorffori yn fwy cadarn o fewn y Cyngor ac mae canolbwyntio cliriach ar reoli perfformiad yn arferol bellach. Nododd yr adolygiad fod y berthynas gyda Hamdden Clwyd Cyf wedi’i rheoli’n fwy cadarn yn y camau diweddarach hyn, gyda monitro rheolaidd ar waith a chamau

gwella wedi'u nodi a'u dilyn ymlaen. Roedd y penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet ym mis Ionawr a Mawrth 2014 wedi'u hysbysu i raddau helaeth o ganlyniad i'r dull mwy cadarn hwn. Pwysleisiwyd bod y system Archwilio gyfredol yn lleihau risgiau posibl a bod y Grŵp cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion yn darparu modd o reoli unrhyw ddyblygu, nad oedd ar gael yn y gorffennol, a bod hyn yn darparu rheolaeth ychwanegol yn y system.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol bod argymhellion ar gyfer gwelliannau pellach wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad adolygu a oedd yn gysylltiedig ag adolygiad cyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol o drefniadau cyffredinol ar gyfer sicrhau bod sefydliadau hyd braich yn cael eu llywodraethu a'u perfformiad yn cael ei fonitro'n briodol.
Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion i wella
trefniadau goruchwylio, archwilio a monitro'r Cyngor, gan osgoi dibyniaeth ar gyfarwyddwyr a benodwyd i'r bwrdd gan y Cyngor fel yr unig ddull o lywodraethu ac enwebu pwyllgorau perthnasol yn y Cyngor i ystyried trefniadau llywodraethu a pherfformiad perthnasau hyd braich o'r fath.

Teimlai'r Cadeirydd y dylai'r materion sy'n deillio o'r trafodaethau a'r casgliadau fod yn canolbwyntio ar y dyfodol. Fodd bynnag, teimlai y byddai'n bwysig ystyried llinell amser y digwyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd.

Diolchodd y Cynghorydd P.C. Duffy i'r Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden am y gwaith a wnaeth. Mynegodd bryder na fu dim cynllun busnes ystyrlon na chytundeb prydles yn ei lle ar y dechrau, a chyfeiriodd at y diffyg archwilio, ymyrraeth neu wiriadau mewn perthynas â pherfformiad dros gyfnod hir o amser.

Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd i gwestiynau oddi wrth Aelodau ac eglurodd mai'r agwedd gyllido o'r cytundeb a wnaed oedd yr agwedd fwyaf amhriodol o'r ddogfennaeth.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol yr ymddengys nad oedd unrhyw linellau cyfrifoldeb clir, a thra mynegwyd pryderon roedd y Pwyllgorau priodol yn ymddangos i fod yn fodlon ar sicrwydd a gafwyd ynglŷn â gweithrediad y Cwmni. Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan Aelodau, amlinellodd yr anawsterau yr oedd Cyfarwyddwyr y Bwrdd a benodwyd gan y Cyngor yn eu hwynebu. Roedd yr adolygiad wedi cynnwys argymhellion i wella trefniadau goruchwylio, archwilio a monitro'r Cyngor er mwyn osgoi dibyniaeth ar gyfarwyddwyr bwrdd a benodwyd gan y Cyngor fel yr unig ddull o lywodraethu ac enwebu Pwyllgorau perthnasol o fewn y Cyngor i ystyried llywodraethu a pherfformiad perthnasau hyd braich fel y cyfryw. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol fod yna fanteision i benodi Cynghorwyr fel Cyfarwyddwyr ar Fyrddau Cwmnïau hyd braich, fodd bynnag, nid ar gyfer monitro agweddau perfformiad a chyllid Cwmni yn unig. Teimlodd y Cynghorydd H.Ll. Jones, Aelod Arweiniol dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid, y gallai'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio gyfrannu at y broses o archwilio Cwmnïau hyd braich. Cyfeiriwyd at rolau a chyfrifoldebau Cynghorwyr, Cyfarwyddwyr y Bwrdd ac Aelodau'r Cabinet.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol bwysigrwydd yr angen i reoli unrhyw wrthdaro o ran buddiannau a allai godi, a chyfeiriwyd at ddyletswydd statudol Cyfarwyddwyr Cwmnïau.

Amlinellwyd yr anawsterau a gafwyd gan swyddogion wrth fynd i'r afael â'r problemau a brofwyd gan y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden, a chyfeiriwyd yn arbennig at agwedd wleidyddol y broses. Rhoddodd hefyd fanylion y goblygiadau a'r canlyniadau a ddeilliodd o'r argymhellion yn Adroddiad Archwilio Cymru 2008.

Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cadeirydd, cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol i ddarparu manylion am y meini prawf a'r broses ar gyfer asesu'r gwerth rhent ardrethol a masnachol ar gyfer adeiladau megis Canolfan Nova, Prestatyn.

Cymeradwyodd y Pwyllgor gais gan y Cadeirydd ar gyfer cyflwyno adroddiad i gyfarfod mis Mai 2015 o'r Pwyllgor i gynnwys:-

- Atgyfnerthu rôl Aelodau Etholedig ar Fyrddau Cwmnïau hyd braich a chynnwys y gwaith a wnaed gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd a Phennaeth Archwilio Mewnol mewn perthynas â Cwmnïau hyd braich.
- Y gwaith a wnaed gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, i gynnwys y fframwaith i'w gweithredu ym mis Gorffennaf 2015, gyda diweddariad am weithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt.
- Diweddariad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol ar rôl Aelodau ar Fyrddau Cwmnïau hyd braich perthnasol.

Amlygodd yr Aelodau hefyd yr angen am ddarparu hyfforddiant i Aelodau mewn perthynas â Chwmnïau hyd braich. Amlygodd y Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden yr angen i enwebeion i'r Byrddau perthnasol feddu ar y set sgiliau angenrheidiol a'r ddealltwriaeth i ddiwallu ac ymgymryd â gofynion y swydd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at bwysigrwydd atgyfnerthu'r angen i sicrhau rôl y Pwyllgorau Archwilio perthnasol o ran monitro Cwmnïau hyd braich. Cytunodd y Pwyllgor fod y mater hwn yn cael ei gyfeirio at y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion i'w ystyried.

***PENDERFYNWYD -*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:*

*(a) derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*
*(b) cytuno bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Mai 2015 o'r Pwyllgor, yn cynnwys yr wybodaeth a'r manylion y gofynnwyd amdanynt gan Aelodau.*

***(IB a GW i Weithredu)***

## 13 ADBORTH AR GYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL

Ni chyflwynwyd adroddiad.

## 14 RHAGLEN GWAITH PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a gylchredwyd eisoes) i'w ystyried.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor yn amodol ar gynnwys yr eitemau busnes canlynol yn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor:-

20 Mai 2015:–

- Strategaeth Archwilio Mewnol 2015/16
- Cynllun Gwella Llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2014/15.
- Taliad Ariannol i Rai sy'n Gadael Gofal - Diweddariad
- Adroddiad ar Gyrff Allanol a Diweddariad Hamdden Clwyd - (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd ac i gysylltu gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol).

Eglurodd y Prif Gyfrifydd bod cyflwyno'r Cyfrifon Drafft yn cael ei gynnwys yn y Rhaglen Waith i'r Dyfodol ar gyfer mis Gorffennaf, 2015 a'r Cyfrifon Terfynol ar gyfer mis Medi, 2015.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ymadawiad y Pennaeth Cyllid ac Asedau yn fuan. Mynegodd ef ac Aelodau'r Pwyllgor eu gwerthfawrogiad am yr holl gymorth a chyfarwyddyd a ddarparwyd ganddo a'r gwaith caled a wnaed.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

Daeth y Cyfarfod i ben am 1.45pm.